

- **Beth yw Corws Symffoni Prifysgol Bangor?**

Mae Corws Symffoni Prifysgol Bangor yn gôr **newydd** i holl fyfyrwyr a staff y Brifysgol. Rydym yn perfformio ystod eang o gerddoriaeth glasurol, ac yn rhoi sawl perfformiad bob blwyddyn, gan gynnwys dau gyngerdd mawr gyda Cherddorfa Symffoni Prifysgol Bangor. Yr arweinydd yw'r Athro Chris Collins, Pennaeth Ysgol Cerddoriaeth a Chyfryngau'r Brifysgol. P'un a ydych chi'n newydd i ganu neu'n gerddor corawl profiadol, mae croeso cynnes i chi yng Nghorws Symffoni'r Brifysgol.

- **Beth rydym yn ei ganu?**

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018-19 yn cynnwys perfformiadau o *Ffantasi Corawl* gan Beethoven a *Dioddefaint yn ôl Sant Mathew* gan Bach yn Neuadd Prichard-Jones, yn ogystal â chyngherddau tu allan i Fangor. Y Corws Symffoni yw eich côr **chi**, ac mae croeso i bob aelod awgrymu repertoire i ni ganu.

- **Sut gallaf ymuno â'r Corws?**

Nid oes unrhyw glyweliadau i ymuno â'r Corws Symffoni. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw egni, ymrwymiad, a chariad at ganu. Mae ein hymarferion yn hwyl ac yn gyffrous, ac rydym bob amser yn cael seibiant am baned hanner ffordd drwy'r ymarfer. Mae ymuno â'r Corws yn gwbl rhad ac am ddim. Y cyfan a ofynnwn yw eich bod chi'n dod bob wythnos (neu **bron** bob wythnos o leiaf!) a'ch bod yn gofalu am eich copïau o gerddoriaeth.

- **Pwy all ymuno â'r Corws?**

Mae'r aelodaeth wedi ei chyfyngu i fyfyrwyr, staff a graddedigion diweddar Prifysgol Bangor. Mae gan y Brifysgol gôr arall i gantorion o'r gymuned leol (Côr ar y Bryn), sy'n ymarfer ar yr un noson. Weithiau bydd y ddau gôr yn uno i wneud dwywaith yn fwy o sŵn!

- **Pryd rydym yn ymarfer?**

Rydym yn ymarfer **nos Fercher rhwng 7.30pm a 9.30pm**, fel rheol yn Neuadd Prichard-Jones.

- **Pryd byddwn yn dechrau?**

Byddwn yn dechrau **nos Fercher yr Wythnos Groeso** (19 Medi) gyda chyd-ymarfer agored ynghyd â Chôr Siambr y Brifysgol a Chôr y Gymdeithas Gerdd, ac yna **parti caws a gwin am ddim** wedyn. Ymunwch â ni am **7.30** yn Neuadd Prichard-Jones!



## DEFNYDDIO EICH DATA

- Bydd y data a gesglir ar y ffurflen aelodaeth yn cael ei storio'n ddiogel, mewn copi caled yn unig, yn yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor, Bangor, LL57 2DG.
- Pan ymunwch â'r côr, bydd eich cyfeiriad e-bost yn cael ei ychwanegu at restr bostio electronig, a byddwch yn derbyn gohebiaeth am y côr (amserlenni ymarfer, dyrannu rhannau, cyfleoedd i gael perfformiadau ychwanegol, ac ati). Bydd negeseuon e-bost yn cael eu hanfon mewn ffordd fel nad yw cyfeiriadau e-bost aelodau yn weladwy i dderbynwyr eraill. Ni fydd y rhestr e-bost yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.
- Os ydych chi'n fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor, efallai y byddwn yn cysylltu â chi gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost prifysgol, yn ogystal ag unrhyw gyfeiriad e-bost preifat a gofnodwyd ar y ffurflen aelodaeth.
- Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi'n unigol ynglŷn â materion sy'n gysylltiedig â'ch aelodaeth neu'ch cyfranogiad yn y côr. Bydd yr ohebiaeth hon trwy e-bost yn y lle cyntaf. Ni fyddwn yn cysylltu â chi dros y ffôn neu drwy'r post, dim ond os byddwn wedi methu cysylltu â chi trwy e-bost.
- Caiff y ffurflen aelodaeth ei dinistrio ar 30 Medi 2020 neu cyn hynny.
- Ni chaiff y manylion ar y ffurflen aelodaeth eu rhannu gydag unrhyw ran arall o'r Brifysgol, na gydag unrhyw drydydd parti.
- Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â defnyddio'r data hwn, cysylltwch â'r Athro Chris Collins trwy un o'r dulliau canlynol:  
Post: Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor, Bangor, LL57 2DG  
E-bost: [c.collins@bangor.ac.uk](mailto:c.collins@bangor.ac.uk)  
Ffôn: 01248 382181

## Ffurflen aelodaeth

**Dychweler at:** Corws Symffoni'r Brifysgol, Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG **neu** ddewch â'r ffurflen hon i'r ymarfer cyntaf ar Nos Fercher 19 Medi 2018.

**Enw:** .....

**Cyfeiriad lleol:** .....

.....

**Rhif ffôn:** .....

**Cyfeiriad ebost:** .....

**Math o aelod:**

Myfyriwr

Aelod staff

Graddedig

**Math o lais:**

Soprano

Alto

Tenor

Bas

Ddim yn siŵr

**PWYSIG:** Cytunaf i ddychwelyd y sgorau a fenthycwyd imi yn syth ar ôl pob cyngerdd. Os nad wyf wedi eu dychwelyd o fewn 7 diwrnod ar ôl y cyngerdd, cytunaf i dalu cost eu hamnewid.

**Llofnodwyd:** .....

**MYFYRWYR PRESENNOL YN UNIG:**

**Cwrs:** .....

**Cyfeiriad cartref:** .....

.....

**Rhif ffôn cartref:** .....

